O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 629 (Cy.91)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/3379) (Cy.301)) ("y prif Reoliadau") ynghyd â Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2010 (O.S. 2010/1376 (Cy.121)).

2. Roedd y prif Reoliadau yn rhoi ar waith, o ran Cymru, Benderfyniad y Comisiwn 2004/374/EC a oedd yn atal dros dro osod ar y farchnad a mewnforio jeli cwpanau bach sy'n cynnwys yr ychwanegion bwyd E400, E401, E402, E403, E404, E405, E406, E407, E407a, E410, E412, E413, E414, E415, E417 ac/neu E418 (OJ Rhif L118, 23.4.2004, t.70) ("Penderfyniad y Comisiwn 2004/374/EC"). Mae Penderfyniad y Comisiwn 2004/374/EC wedi ei ddiddymu gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2010/69/EU sy'n diwygio'r Atodiadau i Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 95/2/EC ar ychwanegion bwyd ac eithrio lliwiau a melysyddion (OJ Rhif L279, 23.10.2010, t.22).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 629 (Cy.91)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2011

Gwnaed *2 Mawrth 2011*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *7 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *31 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diodydd)(**2**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1972 p.68.

(**2**) O.S. 2005/1971. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y dynodiad hwn i Weinidogion Cymru gan baragraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2011 a deuant i rym ar 31 Mawrth 2011.

Dirymu

2.—(1) Dirymir Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009(**1**).

(2) Dirymir Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2010(**2**).

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

2 Mawrth 2011

(**1**) O.S. 2009/3379 (Cy.301).
(**2**) O.S. 2010/1376 (Cy.121).